# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2018**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A (Darllen): 30 marc

Mae 6 darn darllen ar y thema 'Byd Ffasiwn' yn y llyfryn darllen sydd ar wahân. Darllenwch **bob** un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn

**Darn Darllen 1**

**Swyddi yn y Diwydiant Ffasiwn yn y Deyrnas Unedig**

**A1.** Faint o bobl sy'n gweithio yn y sector gwerthu dillad? [1]

414,000 ☑

Casglu gwybodaeth

**A2.** Dewiswch y **ddwy** ffaith sy'n gywir drwy roi tic mewn **dau** flwch o'ch dewis. [2]

| | |
|---|---|
| Mae mwy o bobl yn gweithio yn y sector gwerthu nwyddau lledr na'r sector cynhyrchu dillad. | ✓ |
| Y sector sy'n cyflogi'r nifer lleiaf o bobl yw'r sector cyfanwerthu dillad ac esgidiau. | |
| Mae mwy o bobl yn gwerthu dillad nag sydd yn cynhyrchu dillad. | ✓ |
| Mae mwy o bobl yn cynhyrchu esgidiau nag sydd yn cynhyrchu dillad. | |

Dehongli gwybodaeth

**Darn Darllen 2**

**Geiriadur Prifysgol Cymru**

**A3.** Beth yw ystyr 'mewn bri'? [1]

Poblogaidd ☑

Dehongli ystyr

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**

**Ffair Ffeirio Ffasiwn**

**A4.** Pa nodwedd/techneg arddull a ddefnyddir yn nheitl y poster 'Ffair Ffeirio Ffasiwn'? [1]

Cyflythreniad ☑

**Adnabod techneg**

**A5.** Yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth yw 'Ffair Ffeirio' a beth sy'n digwydd yno. [2]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

1 marc am esbonio beth yw ffeirio ac un marc am unrhyw ffaith arall. Mae modd gwobrwyo un heb y llall ond rhaid esbonio sôn am gyfnewid i gael 2 farc. (Derbyn swopio). Gellir cyfeirio at un o'r canlynol i gael un marc:
£5 at elusen (ddim yn derbyn £5 yn unig)
Eitemau a dderbynnir
Tocyn
Prynu dillad newydd yn rhad.

✓ = 1 marc
Dehongli gwybodaeth

**Darn Darllen 4**

**Eich Dillad**

**A6.** Beth yw bwriad yr awdur yn Narn Darllen 4? [1]

Cyflwyno gwybodaeth ☑

Deall diben/pwrpas

© WJEC CBAC Cyf.

**A7.** Meddyliwch am eich ateb i gwestiwn A6. Sut mae'r awdur yn llwyddo i gyflawni ei fwriad? Dylech gyfeirio at y darn darllen wrth ateb. [5]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1-2 farc**
Gallu **cyfeirio** at ambell nodwedd/ffaith o'r darn darllen sy'n dangos bwriad yr awdur, gan ddyfynnu o bosib.

**3 marc**
**Trafod** sawl nodwedd/ffaith o'r darn darllen sy'n dangos bwriad yr awdur gan ddyfynnu a dechrau dadansoddi.

**4 marc**
**Trafod** yn dda sawl nodwedd/ffaith o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda.

**5 marc**
Ateb manwl sy'n **trafod yn ddeallus** nodweddion/ffeithiau arwyddocaol yn y darn gan ddyfynnu a dadansoddi'n hyderus.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- defnydd o ffeithiau e.e. lleoliad y cwmni
- defnydd o ystadegau e.e. 100 tunnell o decstilau
- rhestru e.e. mathau o decstilau
- geiriau cyswllt e.e. o'r fan hon/y rhan gyntaf/ar ddiwedd pob dydd
- esbonio termau e.e. 'hufen'
- trosiadau – bryn/mynydd
- penawdau/isbenawdau
- cwestiwn
- delweddau/lluniau
- dolenni gwybodaeth

Deall diben a phwrpas a rhesymu
✓ - am unrhyw ffaith neu nodwedd
d – dehongli
t – tystiolaeth / dyfynnu neu gyfeiriad penodol

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Huw Ffash**

**A8.** Pa air yn y blwch isod sy'n golygu gwneud i rywun edrych yn wahanol? Tanlinellwch y **gair** cywir. [1]

> Mae Huw yn amlwg iawn ar y teledu ers dros 18 mlynedd. Mae'n gyflwynydd ffasiwn ar raglenni 'Prynhawn Da' a 'Heno'. Ar 'Prynhawn Da', mae'n rhoi gweddnewidiad i wylwyr. Mae'n dewis dillad iddyn nhw, ac mae pobl eraill ar y tîm yn gwneud eu gwallt a'u colur. Mae'n mwynhau siopa i chwilio am syniadau newydd. Mae'n rhoi syniadau i ferched am sut i gael delwedd *designer* am brisiau'r stryd fawr.

Derbynnir os tanlinellir 'gweddnewidiad i'.
Methu gwobrwyo os oes dau neu fwy o atebion hyd oed os ydyw yn cynnwys yr ateb cywir.
✓ = 1 marc
Dehongli ystyr

**A9.** Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi yn barod. [2]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| I goleg Celf Caerdydd aeth Huw i astudio. | | ✓ |
| Mae Milan a Fflorens yn ddinasoedd yn Ffrainc. | | ✓ |
| Mae Huw yn berchen ar siop sy'n gwerthu dillad priodas. | ✓ | |

Dehongli gwybodaeth
**Darn Darllen 6**

**Steil**

**A10.** Nodwch **ddau** reswm pam mae Osian yn hoffi prynu dillad o siopau elusen a siopau *vintage*. [2]

Marc am bob rheswm hyd at ddau reswm.
- oherwydd mae siopa/siop mewn llefydd fel 'ma yn llawer difyrrach
- yn rhatach/yn rhad
- yn fwy unigryw
- ddim yn gwario lot ar ddillad
- dim angen gwario'n wirion

Ddim yn derbyn oherwydd bod y siopau yn brysur / ddim yn hoffi logos / ddim yn poeni sut mae'n edrych / bod y dillad yn ddifyrrach

✓ = 1 marc

Casglu gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5 a 6**

**Huw Ffash a Steil**

**A11.** **Cymharwch** yr hyn rydych chi'n ei ddysgu am Huw Ffash ac Osian Huw Williams. Dylech ddefnyddio gwybodaeth o'r **ddau** ddarn darllen. [7]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1-2 farc**
Gallu adalw gwybodaeth sylfaenol am y ddau ac ychydig o ymdrech i gymharu.

**3-4 marc**
Adalw gwybodaeth yn eithaf manwl gan gymharu'r ddau yn eithaf cyson.

**5-6 marc**
Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y ddau gan gymharu'n effeithiol.
Bydd elfen o ddehongli yn amlwg yn yr ateb.

**7 marc**
Dethol gwybodaeth berthnasol yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed a chymharu'n effeithiol.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- y ddau yn y byd perfformio/diwydiant creadigol – band a theledu
- Dillad yn bwysig i'w gwaith – Osian yn gweld dillad gwaith yn bwysig/Huw'n gwneud gyrfa o fyd ffasiwn/ dillad
- Osian ddim yn poeni sut mae'n edrych tu allan i'r gwaith/Huw'n gweddnewid pobl i edrych yn well
- Osian yn sôn am ei steil ei hun/Huw yn gwella steil pobl eraill
- Osian - dim amynedd siopa/Huw – siopa am ddillad i weddnewid pobl/yn berchen ar siop
- Osian - bargeinion mewn siopau elusen *vintage*/Huw – bargeinion yn T K Max
- Osian ddim yn deall y gwario ar ddillad *designer* neu enwau ar grysau t/ prynu dillad *designer* yn rhad ar gyfer ei waith teledu
- Osian ddim yn gwario lot ar ddillad/Huw'n gallu dod o hyd i fargeinion
- Osian wedi ennill Tlws y Cerddor/Siop Huw wedi ennill nifer o wobrau
- Osian – dim tips dillad - "cerwch amdani!"/Huw'n gwneud bywoliaeth o roi tips ffasiwn i ferched
- Osian ddim yn torri ei wallt ei hun/Huw'n gweddnewid a rhywun arall yn trin gwallt
- Osian – esgidiau arbennig ar gyfer gigio/Huw – ffedog newydd i goginio cinio Nadolig bob blwyddyn
- Huw'n cofio pan fydd merch yn gwisgo'r un ffrog ddwywaith/Osian ddim yn feirniadol o ddewisiadau neb arall – "Os ydych chi eisiau gwisgo rhywbeth - …cerwch amdani!"

✓ - gwybodaeth
✓✓ - gwybodaeth berthnasol i'r cwestiwn
c – cymharu
d – dehongli

Cymharu a dehongli

© WJEC CBAC Cyf.

**A12. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Cafodd Cadi le yn y ras derfynol gan mai hi oedd ________________ yn y rownd gynderfynol.

gyflymaf ☑

Os oes mwy nag un ateb – dim marc.
Mae modd ysgrifennu ar y llinell. Os yw ymgeisydd wedi ysgrifennu 'cyflymaf' yn lle 'gyflymaf' gellir derbyn yr ateb.
Os oes tic mewn blwch ac ysgrifennu ar y llinell sy'n wahanol – y tic yn blwch sy'n cyfrif.

(ii) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y diwedd sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd Jac wedi edrych ymlaen yn fawr at weld y ffilm ond… cafodd ei siomi ynddi. ☑

(iii) Gosodwch y brawddegau canlynol mewn trefn trwy roi'r rhifau 1, 2 a 3 yn y blychau priodol. [3]

(a) Hefyd, rhaid i'r corff gael gwared ar y nwy gwenwynig, carbon deuocsid. [2]

(b) Mae'r nwyon hyn yn cael eu cario o gwmpas y corff yn y gwaed. [3]

(c) Er mwyn aros yn fyw rhaid i nwy ocsigen gyrraedd pob rhan o'r corff. [1]

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

**B1. Prawf ddarllen (5 marc)**

(i) Darllenwch y darn canlynol. Mae dau wall ynddo. Chwiliwch am y **ddau** wall a chywirwch nhw ar y tabl sy'n dilyn y paragraff. [2]

| |
|---|
| Bydd angen i'r gacen fod yn y popty am pum munud ar hugain cyn gadael iddo oeri. Wedyn, gellir ei haddurno. |

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| am pum | (am) bum |
| iddo | iddi |

Rhaid cael y sillafiad cywir.
✓ = 1 marc
Ddim yn derbyn 'bym' na 'bump'.

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

yng Nghymru ☑

(iii) Cywirwch y brawddegau canlynol. Dylech ysgrifennu'r brawddegau yn gywir ar y llinellau. [2]

Pwy yw'r bachgen rwyt ti'n siarad amdano?
Am ba fachgen wyt ti'n siarad?

Gwelodd y bachgen ei ffrind ddoe.
Gwêl y bachgen ei ffrind yfory.
Bydd y bachgen yn gweld ei ffrind yfory.
Mae'r bachgen am weld ei ffrind yfory.
Mae'r bachgen yn gweld ei ffrind yfory.
(Fe/Mi) fydd y bachgen yn gweld ei ffrind yfory.
Gwelodd y bachgen ei ffrind heddiw.

✓ = 1 marc

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.